**Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin**
**21.4.2023**

**Ymddiheuriadau:**
Naomi Jones (Awdurod Parc Cenedlaethol Eryri), Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Ashley Batten (CADW)

**Presennol**:

Yr Arglwydd Dafydd Wigley, Cyng. Nia Jeffreys, Dafydd Gwyn (Govannon), Roland Evans (Cyngor Gwynedd), Kate Roberts (CADW), Hannah Joyce (Cyngor Gwynedd), Gwyneth Hughes (Cyngor Gwynedd - Cofnodi), Michael Bewick (JW Greaves), Ceri Williams (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Christopher Catling (RCAHMW), Andrew Edwards (Prifysgol Bangor), Elen Roberts (Amgueddfa Genedlaethol), Esther Roberts (Amgueddfa Genedlaethol; Lucy Thomas (Cyngor Gwynedd), Kath Davies (Amgueddfa Genedlaethol), Sian Rees (ICOMOS-UK), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd)

| | |
|---|---|
| Derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod. | |
| **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi**<br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir. | |
| **1. Diweddariad STyB**<br><br>**Is Grŵp Cadwraeth**<br>Trosolwg – Kate (Cadeirydd)<br>Adroddwyd bod yr Is Grwp Cadwraeth yn adolygu cynllun gweithredu y cynllun rheoli ymhob cyfarfod sy'n cael eu cynnal.<br><br>**Gwarchodaeth**<br><br>Gan and oedd Ashley yn gallu mynychu roedd wedi anfon diweddariad at Hannah. Bydd Hannah yn cylchredeg.<br><br>**Is Grŵp Buddion**<br>Trosolwg – Michael<br>Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf yr Is-Grwp Buddion diwedd Mawrth 2023.<br><br>Maenofferen yn cael eu hystyried am ail gam Grantiau Cyfalaf CADW.<br><br>Trafodaeathau yn parhau y.a. hubs dehongli.<br><br>Cais cynllunio Breedon ar gyfer adolygiad safle Blaenau Ffestiniog yn 2025.<br><br>Llechwedd – Cais Cynllunio wedi'i gyflwyno gan Zip World ar gyfer ailddatblygu'r canolfan ymwelwyr yn Llechwedd. | HJ |

| | |
|---|---|
| Dorothea – trafodaethau yn parhau ynhlych y cynllun pumped hydro.<br><br>Bydd fandaliaeth a trosedd treftadaeth yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Grwp Buddion. | |
| • **Ceisiadau ariannol – Hannah Joyce** | |
| Roedd Hannah wedi cylchredeg papur adnoddau o flaenllaw. | |
| Bydd y swydd Cydlynydd yn cael ei ail-hysbysebu'n fuan gyda'r ymdrech i gyfleu posibilrwydd bydd y swydd yn gallu cael ei ymestyn tu hwnt i'r cyfnod3 blynedd yn ddibynol ar gyllid a pherfformiad. Mae problem recriwtio ar draws y sector. | HJ |
| Bydd y swydd Rheolwr Prosiect sy'n gysylltiedig a Levelling up hefyd yn cael ei ail hysbysebu. | HJ |
| Angen tynnu sylw yn y papur i staff ac adnoddau y Gwasanaeth Cynllunio sydd heb ei nodi hyd yma, ac adnoddau sefydliadau eraill sydd ynghlwm a'r prosiect Llechi. | HJ |
| Nodwyd y byddai'n fuddiol i'r strwythur gael ei ehangu i'r is-grwp buddion. | HJ/MB |
| Penderfynwyd bod angen ychwanegu colofn ychwanegol sy'n dangos arian grant. | HJ |
| Awgrymodd Michael y byddai'n ddefnyddiol i Aelodau Lleol gael eu gwahodd i'r Is-Grwp Buddion. | HJ |
| Bydd Hannah yn ychwanegu'r sylwadau uchod i'r papur. | HJ |
| **Cynllun Llewyrch o'r Llechi – Hannah Joyce** | |
| Memorandwm o ddealltwriaeth wedi ei dderbyn gan Llywodraeth Prydain, Cyngor Gwynedd wedi ei arwyddo ac yn disgwyl am gopi terfynnol er mwyn medru cytundebu gyda'r partneriaid allanol. | |
| Cyfarfod cychwynol (inception meeting) wedi ei gynnal 19.1.23 rhwng y tîm Ffyniant Bro a swyddogion Cyngor Gwynedd. | |
| Cynlluniau unigol ar waith er mwyn cwblhau yr elfennau unigol o fewn ar amserlen dynn (erbyn Mawrth 2025). Elfen o risg ynghlwm a'r amserlen dynn. | |
| **Cynllun Loteri – Lucy Thomas** | |
| Grwpiau Llechi lleol wedi cyfarfod ar y cyd am y tro cyntaf yn ddiweddar. | |
| Cynhelir Gweithdy wythnos nesaf yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon. Bydd yn gyfle i drafod efo holl rhanddeiliaid ar draws y cymunedau am yr hyn mae nhw eisiau gweld yn y cymunedau. Bydd yn gyfle i weld beth yw'r gweithgareddau y dylid cael eu cynnwys yn y prosiect. | |
| Mae Cystadleuaeth ffotograffiaeth ar y cyd efo Amgueddfa Lechi wedi denu dros 200 o luniau. Bydd yr enillwyr yn cael gwybod yn fuan a byddent yn cael sesiwn efo'r ffotograffydd, Geraint Thomas. Bydd y lluniau yn cael eu harddangos yn yr Amgueddfa Lechi rhwng mis Mai a Rhagfyr. | LT |

| | |
|---|---|
| Bydd Grantiau cymunedol ar gael i weithgareddau sy'n ymwneud a gwarchod threftadaeth trwy'r cynllun Loteri. | LT |
| Rydym yn gweithio ar y cyd efo Headland ar adolygu'r Strategaeth Dehongli. Edrych ar straeon newydd - merched mewn cymunedau llechi, profiadau, rôl rhyngwladol y diwydiant ar hanes. | |
| Adroddodd Lucy ei bod hefyd yn edrych i mewn i hyfforddiant i staff sy'n gweithio'n agos efo ymwelwyr fel bod nhw gallu cyfleu y stori safle treftadaeth y byd. Nododd Roland y bydd yn ddefnyddiol gwneud y sesiynau yma cyn yr Haf. | |
| Bydd adroddiad Lucy yn cael ei atodi efo'r cofnodion. | |
| **Dehongli a hyrwyddo - Hannah Joyce** | |
| Dangosodd Hannah luniau o rhai o'r paneli dehongli sydd wedi eu gosod ar draws yr ardal – diolch i CADW am yr arian. Mae'r adborth gan bartneriaid a chymunedau wedi bod yn gadarnhaol. | |
| **Cyflwyno syniadau datblygu - Hannah Joyce** | |
| Bydd arweiniad ar wefan safle treftadaeth y byd yn cynnig gwasanaeth adborth anffurfiol i ddatblyglwyr posib ar syniadau datblygu, fe fydd modd i swyddogion cynllunio gyfeirio ymholiadau i fan hyn. | |
| **4. Adolygiad Cyfnodol Unesco – Kate Roberts** | |
| Cyflwynwyd yr adolygiad erbyn diwedd Mawrth 2023 i'r UK National Commission a disgwylir ymateb erbyn diwedd mis Mai. Diolchwyd i bawb oedd ynghlwm a pharatoi yr ymateb. Fe fydd gofyn i ni gyflwyno'r fersiwn terfynol erbyn diwedd Gorffennaf 2023. | |
| **5. Themâu Trawsbynciol** | |
| • **Iaith Gymraeg** | |
| Derbyniwyd cyflwyniad gan Dr. Sara Parry oedd yn cyfleu beth sydd wedi'i gwblhau hyd yn hyn o fewn y gwaith ymchwil i farn pobl ifanc ardal Dyffryn Ogwen am y dynodiad STYB. | |
| Casgliad data wedi ei orffen. Y prosiect heb ei orffen, mae mwy o dadansoddi i wneud. | |
| Roland i ddilyn i fyny efo Dr. Sara Parry. | RE |
| Yn anffodus, oherwydd prinder amser roedd rhaid ail-drefnu cyflwyniad Dr. Cynog Prys. | RE/HJ |
| **Yr Economi Ymweld** | |
| Adroddodd Roland bydd lansiad Cynllun Economi Ymweld yn digwydd yn fuan. | |

| | |
|---|---|
| **6. Unrhyw Fater arall**<br>• Amgueddfa Lechi – symud ymlaen cynllunio ar gyfer y prosiect datblygu Amgueddfa Lechi. Ar fin apwyntio cwmni dylunio. Trafodaeth positif yn mynd yn ei flaen efo LlC y.a. arian cyfatebol i'r cynllun Ffyniant Bro. Penderfyniad i ganolbwyntio ail-ddatblygu y safle presennol yw'r cam cyntaf. Penderfynwyd y byddai hyn yn eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd yma.<br>• Amgueddfa Lechi – Adroddodd Elen bod swyddogion Amgueddfa Lechi wedi ymuno yn y Lansio Blwyddyn Cymru yn Ffrainc 2023 ym Mharis yn ddiweddar.<br>• Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Grwp Dynodiadau UNESCO Cymru o dan arweiniad yr UK National Commission.<br>• Perfformiad Llechi' gan Math Roberts ac Ifor ap Glyn yn yr Wyl Delynnau. Lucy i edrych os fyddai modd cynnal perfformiadau ar draws yr ardal neu defnyddio'r gerddoriaeth mewn rhyw ffordd yn y prosiect Loteri (gall araith Yr Arglwydd Dafydd Wigley blethu fel rhan o ddigwyddiad. | HJ<br><br>LT |
| **7. Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br><br>**29ain o Fehefin yn y prynhawn.**<br><br>**Eitemau ar y rhaglen:**<br><br>Diweddariad Levelling UP yn ei gyfanrwydd (yn cynnwys diweddariad cynllun yr Amgueddfa Lechi)<br><br>Yn y cyfamser, bydd Roland yn cylchredeg ebost y.a.'r Eisteddfod<br><br>Roland i gyfarfod efo Dr. Sara Parry yn fuan.<br><br>Cyfarfod efo Arweinyddiion Treftadaeth y Byd | HJ |